CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Democratic Services (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 23AIN HYDREF, 2019** am **5.00 PM.**

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019, yn rhai cywir.

5 - 20

LLYWODRAETHU AGORED

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

21 - 28

6. BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG

Derbyn cynrychiolwyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a sicrwydd i'r Aelodau mewn perthynas â gwaith y Bwrdd.

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

29 - 36

8. GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol.

37 - 40

9. PENDERFYNIADAU BRYS O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

41 - 44

10. RHYBUDD O GYNNIG

A. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes, G Caple, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R.

Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo:

I nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref, mae'r Awdurdod yma'n rhoi ei gefnogaeth i ymgyrch atal hunanladdiad #IPledge2Talk ac yn ymrwymo i weithio i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf, mewn ysgolion, cymdogaethau a gweithleoedd lleol.

Fel Awdurdod Lleol, rydyn ni'n cydnabod ein rôl hanfodol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r mater yma, fel y gwelwyd mewn Rhybudd o Gynnig blaenorol a oedd, nid yn unig yn ailddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i ymgyrch 'Beth am Siarad â Fi?' 2 Llywodraeth Cymru, ond hefyd yn ceisio ystyried ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar eu gyfer iechyd meddwl o fewn yr Awdurdod ac ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Dylai annog lles meddyliol fod yn flaenoriaeth ar draws holl feysydd cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys tai, cymunedau diogel a chynllunio. Yn ogystal, bydd yr addewid yma hefyd yn cwmpasu'r gefnogaeth y mae'r Cyngor yma'n ei darparu i Gymuned y Lluoedd Arfog, sydd, yn anffodus, yn gweld cyfraddau anghymesur o uchel o hunanladdiad ymhlith ein cyn-filwyr yn benodol.

Mae'r Aelodau'n galw ar ein Hyrwyddwr Iechyd Meddwl i barhau i godi proffil ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y mater yma.

***

B. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol E. Webster, J. Davies, J. Cullwick, P. Jarman, G. Davies J. Williams, A. Cox, H. Fychan, D. Grehan, E. Griffiths, K. Morgan, S. Rees-Owen , M. Weaver, D. Macey, S. Evans, A. Chapman, L. Jones a E. Stephens:

Bu'r achlysuron mewn pyllau padlo a drefnwyd gan grwpiau gwirfoddol dros yr haf yn boblogaidd iawn gyda phlant a'u rhieni. O ganlyniad i hyn, dylai'r Cyngor hwn ystyried neilltuo cyllid er mwyn cynorthwyo â'r gost o gyflogi achubwyr bywyd am 6 wythnos haf nesaf fel bod modd i bob pwll, yn ddieithriad, aros ar agor ar hyd gwyliau'r ysgol.

Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet ar y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn.

***

11. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor